



**Teitl y Cyfarfod:** Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (FfMCG 51)

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Mawrth 2015      **Amser:** 10.30      **Lleoliad:** Ystafell  
Gynadledda,  
Maes y Ffynnon,  
CNC Bangor

**Yn bresennol:** Ruth Hall (CNC, Cadeirydd), Carys Drew (CNC, Ysgrifenyddiaeth), Janet Williams (BDS), Mark Weston (BHS), Andrew Stumpf (Glandŵr Cymru), Stuart France (CCC), Charles de Winton (CLBA), Adrian Walls (IPROW/WROWMWG), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (FUW), Jean Rosenfeld (FfMLI Cymru/YDCW), Rachel Lewis-Griffiths (NFU Cymru), Angela Charlton (Y Cerddwyr), Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Chris Wright (WATO), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Catrin Dellar (LIC), John Watkins (LIC), Quentin Grimley (CNC), Jont Bulbeck (CNC).

**Ymddiheuriadau:** Elfyn Jones a Dr Catherine Flitcroft (BMC), Jeanne Hyett (BHS), Gwenda Owen/Ian Richardson (CTC), Stephanie Price (Mountain Training Cymru), Richard Neale (YG), Gwyn Smith (Sustrans), Ian Dutch (CLILC), Rowland Pittard (YHA),

Rhif Eitem:	Eitem	Gweithredu
-------------	-------	------------

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau.**

Croesawodd Ruth Hall bawb i'r cyfarfod, a chyflwynwyd sawl un a oedd yn dirprwyo dros y cynrychiolwyr arferol.

Nid oedd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar eu gwedd derfynol eto ac nid oeddent wedi'u cylchredeg. Cynigiodd Ruth y dylid, o hyn ymlaen, cynhyrchu crynodeb byrrach o'r cyfarfod a'i gylchredeg o fewn 2 wythnos i'r cyfarfod ac awgrymodd fod pobl yn cadw'u nodiadau eu hunain pe baent am gofnodi unrhyw bwyntiau manwl. Gofynnwyd am farn aelodau'r Fforwm a chytunwyd â'r cynnig.

**Cam gweithredu 51.1:** Cylchredeg nodyn drafft y cyfarfod diwethaf (FfMCG 50) a'r cyfarfod hwn erbyn 31<sup>ain</sup> Mawrth 2015. Pawb i edrych arnynt ac ymateb i Carys ag unrhyw faterion.

Carys  
Drew/Pawb

---

## 2. Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad CNC

Rhoddodd Jont Bulbeck, CNC, gyflwyniad ar Gynllun Galluogi Hamdden a Mynediad CNC y cytunwyd yn derfynol arno'n ddiweddar. Bydd yn llywio gwaith CNC yn y maes hwn tan 2020. Roedd FfMCG wedi cyfrannu tuag at ddatblygu'r Cynllun Galluogi (yr arferid cyfeirio ato fel y Strategaeth Hamdden a Mynediad) mewn gweithdai ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'r Cynllun Galluogi a dogfennau cysylltiol (Action Plan ac Indicative Results Based Accounting Plan (Saesneg yn unig)) ar gael oddi wrth CNC yn awr a byddant ar gael yn fuan ar wefan CNC.

Gweler ffeil y cyflwyniad am ragor o fanylion. (Ynghlwm) Cysylltwch â Jont Bulbeck neu Roz Owen i gael rhagor o wybodaeth:

[Jont.Bulbeck@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Jont.Bulbeck@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

[Rosalind.Owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Rosalind.Owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

### Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys:

- Yr agenda gydranedig bwysig ynglŷn â thracio buddion (yn enwedig buddion iechyd) hamdden a mynediad awyr agored.
- Y cyfle i sicrhau cysondeb monitro rhwng gwahanol sefydliadau a rhaglenni er mwyn gallu gwerthuso'n ehangach, a phwysigrwydd sicrhau bod y mesurau'n gymesur yn enwedig lle mae gwaith yn cael ei gyflawni gan bartneriaid.

**Cam gweithredu 51.2:** Cylchredeg y Cynllun Galluogi a dogfennau cysylltiol i'r Fforwm a rhannu'r ddolen at y we. Carys Drew

---

## 3. Rhaglenni Ariannu Llywodraeth Cymru a CNC:

### Rhaglen Ariannu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus:

- Tynnodd Carys Drew sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiadau ar yr hyn a gyflawnwyd gan y rhaglen yn 2013/14.
  - Cwblhawyd gwaith ar gyfer 2014/15 ac roedd y taliadau i awdurdodau lleol yn cael eu prosesu. Byddai CNC yn paratoi adroddiadau wedi'u coladu ar 2014/15 ac yn eu cylchredeg i'r Fforwm maes o law.
  - Roedd y Gweinidog Adnoddau Naturiol wedi cadarnhau y byddai £1 miliwn ar gael i'r Rhaglen Ariannu yn 2015/16.
  - Byddai disgwyl i Awdurdodau Priffyrdd Lleol adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus o
-

fewn 10 mlynedd i gyhoeddi'u cynllun cyfredol. Roedd CNC yn datblygu cyngor i LIC ar ei Chanllawiau Statudol i'r diben hwn.

- Byddai CNC am ymgynghori â'r Fforwm ynglŷn â diwygio'r Canllawiau, drwy sefydlu is-grŵp.

**Cam gweithredu 51.3:** Pawb i gylchredeg Adroddiadau ar y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy'r ariannu. Pawb

#### **Llwybr Arfordir Cymru:**

- Rhoddodd Quentin Grimley ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol.
- Roedd CNC wedi darparu cyngor i LIC ar reoli Llwybr Arfordir Cymru i'r dyfodol.
- Cadarnhaodd LIC ei bod yn cynnig £900,000 o arian ychwanegol yn flynyddol i CNC ac y byddai'r swm hwn yn cael ei wario ar Lwybr Arfordir Cymru bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf o leiaf. Yn dibynnu ar angen rhaglen Llwybr yr Arfordir, byddai gan CNC rywfaint o ddisgresiwn i amrywio'r swm, cyhyd â'i fod yn gallu dangos buddsoddiad o £4.5 miliwn dros y cyfnod.
- Mae'r cytundeb yn ychwanegol at y trefniadau cyfredol ar gyfer Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n cael ei ariannu drwy raglen Llwybrau Cenedlaethol CNC.
- Roedd camau'n cael eu cymryd hefyd i benodi swyddogion LIAC pwrpasol yn gyfrifol am reoli rhannau penodol o'r llwybr.

Gweler y cyflwyniad am ragor o fanylion.

#### **Sblash:**

Rhoddodd Jont Bulbeck ddiweddariad i'r Fforwm ar arian posib ar gyfer hamdden dŵr. Roedd CNC wedi darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnal trafodaethau â hi, ond nid oedd cytundeb eto ar unrhyw raglen ariannu ar gyfer 2015/16.

---

4.

#### **Fforymau Mynediad Lleol (FfMLI) yng Nghymru**

Rhoddodd Jean Rosenfeld, Cynrychiolydd Cenedlaethol FfMLI, drosolwg byr o waith y FfMLI yng Nghymru a diweddariad. Nododd bwysigrwydd cael cydbwysedd ymysg y cynrychiolwyr ar bob Fforwm, ac anogodd y sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymysg eu rhanddeiliaid lleol o'r cyfle i ymwneud â'u fforwm lleol i

helpu i sicrhau bod pob buddiant yn cael ei gynrychioli'n dda.

Pawb

**Cam gweithredu 51.3:** Pawb i atgoffa aelodau lleol eu sefydliad o'r cyfle iddynt wneud cais i gynrychioli'u maes buddiant nhw ar eu Fforwm Mynediad Lleol.

---

**5. Glandŵr Cymru: y ddwy flynedd gyntaf**

Rhoddodd Andrew Stumpf drosolwg a thrafodaeth ar y model 3<sup>ydd</sup> sector yr oedd Glandŵr Cymru wedi'i fabwysiadu i reoli asedau cyhoeddus. Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol a châi llawer iawn ei gyflawni drwy wirfoddoli, a oedd yn cwmpasu ystod eang o waith yn amrywio o welliannau ymarferol i ddysgu a gwaith clercio.

---

**6. Cyfraniadau gan bawb**

Gweler: Papur 5. FfMCG 51 Cyfraniadau

---

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Arfaethedig:

7<sup>fed</sup> Gorffennaf 2015 (y Canolbarth)

10<sup>fed</sup> Tachwedd 2015 (y De)

8<sup>fed</sup> Mawrth 2016 (y Gogledd)

---